# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 15 Rhagfyr 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Gan gyfeirio at ei ateb i WAQ30466, a wnaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfarwyddo ei hymgynghorwyr i gynnal cyfarfod cyhoeddus er mwyn sicrhau yr hysbysir trigolion lleol ynghylch ffordd liniaru ar gyfer Llandeilo ac y gallant gyflwyno sylwadau yn ei chylch. (WAQ30675)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Gweinidog wedi'i dderbyn ynghylch ei hymrwymiad yn ei maniffesto i gyflwyno gofal cartref am ddim ar gyfer pobl anabl. (WAQ30677)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaeth y Gweinidog dderbyn cyngor cyfreithiol ynghylch ei hymrwymiad yn ei maniffesto i gyflwyno gofal cartref am ddim ar gyfer pobl anabl, cyn etholiad y Cynulliad yn 2003. (WAQ30678)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r cyngor cyfreithiol ynghylch ei hymrwymiad yn ei maniffesto i gyflwyno gofal cartref am ddim ar gyfer pobl anabl. (WAQ30679)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa asesiad cost y mae'r Gweinidog wedi'i wneud mewn perthynas â'i hymrwymiad yn ei maniffesto i gyflwyno gofal cartref am ddim ar gyfer pobl anabl. (WAQ30680)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa ymgynghoriadau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â CLILC ynghylch ei hymrwymiad yn ei maniffesto i gyflwyno gofal cartref am ddim ar gyfer pobl anabl, a phryd y cynhaliwyd yr ymgynghoriadau hyn. (WAQ30681)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn mewn perthynas â'i hymrwymiad yn ei maniffesto i gyflwyno gofal cartref am ddim ar gyfer pobl anabl. (WAQ30682)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa mor fynych yw'r Clefyd Ysgyfeiniol Rhwystrol Cronig yng Nghymru ar hyn o bryd, a sut mae'r ffigur hwn wedi newid yn ystod y 10

mlynedd diwethaf. (WAQ30683)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyflwyno strategaeth ar gyfer atal a rheoli clefydau sy'n effeithio ar y gallu i anadlu, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ30707)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Gan gyfeirio at WAQ 30598, 30599, 30600 a 30601, a wnaiff y Gweinidog amlinellu pam nad yw'r ffigurau ar gael ynghylch y gwelyau gofal critigol a gofal dwys yn Ysbyty Glan Clwyd o 1999. (WAQ30708)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r sefyllfa o ran Brecwastau Ysgol am Ddim, ynghyd â manylion o ran lle a phryd y bydd y cynlluniau peilot yn cychwyn. (WAQ30684)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am yr holl gynigion sydd wedi'u cyflwyno iddi hi a'i rhagflaenydd fel Gweinidog y Cynulliad dros Addysg ynglyn â chau ysgolion a'r penderfyniadau a wnaed, ynghyd â'r dyddiadau. (WAQ30685)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chynghorau lleol ynghylch y cynnydd yn y Dreth Gyngor. (WAQ30686)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw gamau y mae'n eu cymryd i annog pobl i bleidleisio drwy'r post yn etholiadau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf. (WAQ30687)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o arian y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wario yn hysbysebu etholiadau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf. (WAQ30688)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o arian sydd wedi'i glustnodi gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer etholiadau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf. (WAQ30689)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hybu effeithlonrwydd a chwtogi costau mewn llywodraeth leol. (WAQ30692)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o Gynghorwyr y disgwylir iddynt wneud cais am y cynllun Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd. (WAQ30690)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r rhagamcanion ar gyfer cost y cynllun Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd ar gyfer Cynghorwyr a fydd yn ymddeol. (WAQ30691)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint sydd wedi'i wario ar gyflogi swyddogion gan Lywodraeth y Cynulliad ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, (a) mewn punnoedd, a (b) fel canran o'r cyfanswm a wariwyd gan y Cynulliad ym mhob un o'r blynyddoedd hynny. (WAQ30693)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r swm a wariwyd gan bob adran ar hysbysebu rhwng 1 Mai a 1 Tachwedd 2003, (a) mewn punnoedd, a (b) fel canran o holl gyllideb y Cynulliad rhwng y dyddiadau hynny. (WAQ30694)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o arian a wariwyd gan y Cynulliad ar hysbysebu rhwng 1 Mai a 1 Tachwedd 2003, (a) mewn punnoedd, a (b) fel canran o holl gyllideb y Cynulliad rhwng y dyddiadau hynny. (WAQ30695)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod costau'n cael eu cadw i lawr ym mhob un o adrannau'r Gweinidogion. (WAQ30696)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gwtogi ar gostau o fewn ei hadran. (WAQ30697)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o arian, ar ffurf grant bloc, y bydd y Cynulliad yn ei dderbyn gan y Trysorlys eleni. (WAQ30698)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o arian a wariwyd gan bob un o adrannau'r Gweinidogion ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, (a) mewn punnoedd, a (b) fel canran o gyllideb flynyddol y Cynulliad ym mhob un o'r blynyddoedd hynny. (WAQ30699)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru faint o arian a wariwyd gan bob un o adrannau'r Gweinidogion rhwng 1 Mai a 1 Tachwedd 2003, (a) mewn punnoedd, a (b) fel canran o'r holl arian a wariwyd gan y Cynulliad rhwng y dyddiadau hynny. (WAQ30700)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes cymal diddymu yng nghytundeb y Cynulliad gydag ABP mewn perthynas ag adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ30701)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Petai adeilad newydd y Cynulliad yn cael ei ddiddymu yn awr, faint y byddai'n rhaid i'r Cynulliad ei dalu i ABP o ganlyniad i unrhyw gymal diddymu. (WAQ30702)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Hyd yma, faint y mae adeilad newydd y Cynulliad wedi'i gostio. (WAQ30703)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r rhagamcanion ar gyfer cost adeilad newydd y Cynulliad pan fydd wedi'i gwblhau. (WAQ30704)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r rhagamcanion ar gyfer costau rhedeg adeilad newydd y Cynulliad yn ystod ei flwyddyn gyntaf. (WAQ30705)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Beth oedd cyfanswm yr arian a wariwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gludo swyddogion mewn tacsis yn (a) 1999, (b) 2000, (c) 2001, a (d) 2002. (WAQ30706)